CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

Cofnodion Cyfarfod 06 Rhagfyr, 2022

Presennol: Meredydd Williams, Elfed Roberts, Gareth Jones, Eurwyn Jones, Eirian Hoyle

1. Ymddiheuriadau: Lynda Massarelli, Tomos Parry-Ephraim,

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf. EH, ER

3. Materion yn codi o'r cofnodion

3.420 Gellilydan (Bron Gelli): Ymateb wedi ei dderbyn gan Adrian Williams:

Gweler isod ohebiaeth gyda cwmni ADRA mewn perthynas a gwaith yn Bron Gelli, Gellilydan. Yn anffodus yn dilyn amryw gyfarfod safle a gohebiaeth rhwng Adran Priffyrdd a Chyngor Cymuned mewn perthynas a tocio'r coed/gwrych wrth Bron Gelli, mae ADRA wedi trefnu ei tocio. Rwyf bryderus hefyd fod y gwaith wedi ei wneud heb ganiatâd gan Parc Cenedlaethol Eryri i dorri'r coed/gwrych.

Rydym wedi eich hysbysu fydd unrhyw waith i glirio'r coed/gwrych yn amharu ar y wal gynnal a bydd gosod pyst ffens nawr yn gwaethygu'r sefyllfa. O ganlyniad, mae'r cyfrifoldeb i gynnal y wal a'r safle nawr gyda ADRA nid Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd.

3.421 Cae Chwarae Maentwrog: LM am wneud ymholiadau os oes cyllid ar gael, (cadw mlaen),

3.422 Gors Fach – Pryderon Diolgelwch – cadw mlaen.

3.423 Cae Chwarae Gellilydan – cyfarfod safle – M Williams ac Michael Evans o ADRA yn bresennol. Cadarnhawyd bod cyfrifoldebau yn gorwedd gyda Chyngor Gwynedd, clerc i gysylltu a threfnu cyfarfod.

Mynwent Dwyryd –

- 3.424 Gwella'r safle parcio – (mae'r mater wedi ei drosglwyddo i Stad yr Eglwys, dim gohebiaeth swyddogol wedi dod i law hyd yma. Clerc i ail-gysylltu a Mr Richard Williams.
- 3.425 Penderfynwyd i Dewi wneud un torriad arall yno, ac Heddwel Williams i dacluso (cadw mlaen).

3.426 Gofeb Maentwrog: Gwaith yno wedi ei gwblhau.

3.427 Gellilydan – plant yn defnyddio 'scooters' ar y ffordd – Gareth Jones i godi y mater yng nhyfarfod nesaf Llywodraethwyr yr Ysgol (cadw mlaen).

CamScanner

3.428 Tir ger Gors Fach – gwaith atgyweirio angen ei wneud i'r ffens, Elfed Roberts am gysylltu a Chyngor Gwynedd. Syniadau am yr hyn a gellir ei wneud yno i'w ddilyn i fyny yn Mis Ionawr

3.429 Archwiliad Mewnol - ymholidau wedi eu derbyn gyda Archwiliad 2019-2020, clerc i ymateb.

3.430 Archwiliad Allianz: pris wedi ei dderbyn gan GL Jones, trafod cyfarfod nesaf.

3.431 National Grid: grantiau ar gael, trafod cyfarfod nesaf.

4. Materion i'w trafod ar y pryd.,

4. 173 Parcio Gellilydan: Ceir yn parcio ar linellau dwbl, clerc wedi cysylltu a Chyngor Gwynedd, ymateb wedi ei dderbyn;

Diolch am eich cwyn isod ac am ddod a'r mater at ein sylw.

Rwyf wedi anfon eich cwyn ymlaen i Rheolwr Llinell y Swyddogion Gorfodaeth Sifil. Bydd yr ardal yn cael ei fonitro pan bydd Swyddog yn yr ardal.

4.174 Bryn Arms, Gellilydan: Elfed Roberts am gysylltu gyda'r Parc er mwyn cael cadarnhad ar y pwyntiau canlynol:

- 4.175 Oes caniatâd wedi ei gael i ddwblu maint y bont (mae yn achosi llifogydd o ddŵr i'r tai cyfgoes).
- 4.176 carafanau a statig

4.177 Cae Chwarae Gellilydan: Fainc wedi pydru a'r bin wedi torri, (cadw mlaen at y cyfarfod nesaf.

5. Ariannol

5.102 Gweler yr atodiad sydd wedi ei gadarnhau gan aelodau y cyngor.

Cytunwyd i dalu y canlynol:

5.103 Martin Kerr: £460

5.104 Owain Aeron: £558

5.105 Owain Aeron: £1000

5.106 Cyngor Gwynedd: £204

5.107 Cyngor Gwynedd: £107

5.108 Elis Smith: £1533

5.109 Bois Bontnewydd: £3144

5.110 C H Jones: £480

5.111 C H Jones: £140

CamScanner

5.112 C H Jones: £119.80

5.113 Cytunwyd i drosglwyddo arian o gyfrif y Fynwent i'r cyfrif Cyfredol os bydd angen.

6. Cynllunio

Dim gwrthwynebiad i'r cais canlynol

6.53 NP5/73/347B Cae Glas, Gellilydan – Dymchwel adeilad allanol.

6.54 NP5/=73/LB27R/LB27Q Gwesty'r Grapes – Gosod pafin i greu ramp a terasau.

7. Gohebiaeth

216 Dawns i bawb

217 National Grid

218 Cyngor Tref Ffestiniog

8. Adroddiad o gyfarfodydd eraill

Dim newyddion

9. Dyddiad cyfarfod nesaf

7fed Chwefror, 2023

CamScanner